Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **30 Mehefin 2025** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Medwyn Hughes (Cadeirydd), Cyng. Delyth Russell (Dirprwy Faer), Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Lisa Toth a'r Cyng. John Wyn Williams.

**Swyddogion:-** Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol ) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

**24/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Michael Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts a'r Cyng. Jackie Spence.

**25/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**26/25 YMATEB I'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

*Dosbarthwyd y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod hwn.*

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl trafodaeth pleidleisiodd y Cyngor i dderbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**27/25 CYMERADWYO'R DATGANIAD CYFRIFON BLYNYDDOL A'R FFURFLEN FLYNYDDOL**

*Roedd y Datganiad Blynyddol a'r Ffurflen Flynyddol wedi'u dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.*

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y cyfrifon a'r ffurflen flynyddol cyn cyfarfod y Cyngor llawn.

Dywedodd y Pwyllgor fod y dogfennau hyn wedi'u paratoi ar gyfer yr archwiliad blynyddol ac wedi'u gwirio gan yr Archwilydd Mewnol.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cyfrifon a'r ffurflen flynyddol.

**28/25 DERBYN YR ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

*Roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau cyn y cyfarfod.*
Bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar yr archwiliad mewnol cyn cyfarfod llawn y Cyngor.
Esboniodd y Cyfarwyddwr Dinesig mai dim ond un sylw bach oedd yn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol.
**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r archwiliad mewnol.

**29/25 CYMERADWYAETH I BARHAU I DDEFNYDDIO RHEOLAU SEFYDLOG A DEBYDAU UNIONGYRCHOL I WNEUD TALIADAU'R CYNGOR**

Roedd angen cymeradwyaeth y Cyngor ar y Cyfarwyddwr Dinesig a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i barhau â thaliadau Debydau Uniongyrchol a Rheolau Sefydlog ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo parhau â'r Rheolau Sefydlog a Debydau Uniongyrchol i wneud taliadau.

**30/25 CYMERADWYO SEFYDLU PWYLLGOR IAITH GYMRAEG**
Er mwyn gwella safon yr Iaith Gymraeg o fewn y Cyngor, cyflwynwyd cynnig ar gyfer yr angen i sefydlu Pwyllgor Iaith Gymraeg.
**PENDERFYNWYD:** Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd sefydlu Pwyllgor y Gymraeg. Cynigiodd yr aelodau canlynol i fod yn aelodau o'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2025/2026 :- Y Cynghorydd Elin Walker Jones, y Cynghorydd Huw Wyn Jones, y Cynghorydd Delyth Russell, y Cynghorydd Medwyn Hughes a'r Cynghorydd Gwynant Roberts.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.50pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR